(a) cyfanswm gros unrhyw bremiwm neu swm sy'n ymwneud â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef o dan adran 273, 619 neu 639 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988, neu os yw'r incwm yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-

(**1**) "Financial Statistics" (ISSN 0015-203X).

(2) Where the only paragraph in Part 2 of Schedule 1 of the 2007 Regulations into which an eligible student falls is paragraph 9 and his or her income arises from sources or under legislation different from sources or legislation normally relevant to a person referred to in paragraph 9 of Part 2 of Schedule 1 of the 2007 Regulations, his or her income is not disregarded in accordance with paragraph (1) but is instead disregarded to the extent necessary to ensure that he or she is treated no less favourably than a person who is referred to in any paragraph of Part 2 of Schedule 1 of the 2007 Regulations would be treated if in similar circumstances and in receipt of similar income.

(3) Where the eligible student receives income in a currency other than sterling, the value of that income for the purpose of this paragraph is -

(a) if the student purchases sterling with the income, the amount of sterling the student so receives;

(b) otherwise, the value of the sterling which the income would purchase using the rate for the month in which it is received published by the Office for National Statistics(**1**).

Calculation of parent's residual income

10.-(1) For the purposes of determining the taxable income of an eligible student's parent, any deductions which fall to be made or exemptions which are permitted-

(a) by way of personal reliefs provided for in Chapter 1 of Part VII of the Income and Corporation Taxes Act 1988 or, where the income is computed for the purposes of the income tax legislation of another Member State, any comparable personal reliefs;

(b) pursuant to any enactment or rule of law under which payments which would otherwise under United Kingdom law form part of a person's income are not treated as such; or

(c) under paragraph (2),

are not made or permitted.

(2) For the purposes of determining the residual income of an eligible student's parent, there shall be deducted from the taxable income determined under paragraph (1) the aggregate of any amounts falling within any of the following sub-paragraphs -

(a) the gross amount of any premium or sum relating to a pension (not being a premium payable under a policy of life assurance) in respect of which relief is given under section 273, 619 or 639 of the Income and Corporation Taxes Act 1988, or where the income is computed for the purposes of the income tax legislation of another Member State, the gross

(**1**) Financial Statistics" (ISSN 0015-203X).

wladwriaeth arall, cyfanswm gros unrhyw bremiwm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef os oedd y ddeddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth a oedd yn gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm;

(b) mewn unrhyw achos lle y caiff incwm ei gyfrifiannu at ddibenion y Deddfau Treth Incwm yn rhinwedd paragraff (6) unrhyw symiau sy'n cyfateb i'r didyniad a grybwyllwyd ym mharagraff (6)(a), ar yr amod nad yw unrhyw symiau a ddidynnir felly yn fwy na'r didyniadau a fyddai'n cael eu gwneud pe bai'r cyfan o incwm rhiant y myfyriwr cymwys mewn gwirionedd yn incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod incwm y rhiant yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn union cyn y flwyddyn berthnasol ("y flwyddyn ariannol gyfredol"), o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o fod yn llai na gwerth sterling ei incwm yn y flwyddyn ariannol flaenorol i'r fath raddau y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe bai'r hawlogaeth yn cael ei seilio ar y flwyddyn ariannol gyfredol, caiff Gweinidogion Cymru, er mwyn galluogi'r myfyriwr cymwys i fynychu'r cwrs heb galedi, gadarnhau incwm yr aelwyd am y flwyddyn ariannol gyfredol.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod incwm y rhiant mewn unrhyw flwyddyn ariannol, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o fod ac o barhau ar ôl y flwyddyn honno yn llai na gwerth ei incwm mewn sterling yn y flwyddyn ariannol flaenorol i'r fath raddau y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe bai hawlogaeth yn cael ei seilio ar y flwyddyn ariannol gyfredol, caiff Gweinidogion Cymru, er mwyn galluogi'r myfyriwr cymwys i fynychu'r cwrs heb galedi, gadarnhau incwm yr aelwyd am flwyddyn academaidd cwrs y myfyriwr cymwys y digwyddodd y digwyddiad hwnnw ynddi drwy gymryd cyfartaledd incwm gweddilliol y rhiant am bob un o'r blynyddoedd ariannol y mae'r flwyddyn academaidd honno'n digwydd ynddynt fel ei incwm gweddilliol.

(5) Os yw rhiant y myfyriwr cymwys yn bodloni Gweinidogion Cymru bod ei incwm yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o elw busnes y mae'n ei redeg neu broffesiwn y mae'n ei ddilyn, yna mae unrhyw gyfeiriad yn y paragraff hwn at flwyddyn ariannol flaenorol yn golygu'r cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n diweddu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol flaenorol ac y mae cyfrifon ynglyn â'r busnes neu'r proffesiwn hwnnw yn cael eu cadw mewn perthynas â hi.

(6) Os yw rhiant myfyriwr cymwys yn cael unrhyw incwm nad yw'n rhan o'i incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall a hynny'n unig-

amount of any such premium in respect of which relief would be given if that legislation made provision equivalent to the Income Tax Acts;

(b) in any case where income is computed for the purposes of the Income Tax Acts by virtue of paragraph (6) any sums equivalent to the deduction mentioned in paragraph (6)(a), provided that any sums so deducted do not exceed the deductions which would be made if the whole of the eligible student's parent's income were in fact income for the purposes of the Income Tax Acts;

(3) Where the Welsh Ministers are satisfied that the income of the parent in the financial year beginning immediately before the relevant year ("the current financial year") is, as a result of some event beyond his or her control, likely to be less than the sterling value of his or her income in the preceding financial year to such an extent that it would affect the student's entitlement if entitlement were to be based on the current financial year they may, for the purpose of enabling the eligible student to attend the course without hardship, ascertain the household income for the current financial year.

(4) Where the Welsh Ministers are satisfied that the income of the parent in any financial year is, as a result of some event beyond his or her control, likely to be and to continue after that year to be less than the sterling value of his or her income in the previous financial year to such an extent that it would affect the student's entitlement if entitlement were to be based on the current financial year they may, for the purpose of enabling the eligible student to attend the course without hardship, ascertain the household income for the academic year of the eligible student's course in which that event occurred by taking as the residual income of the parent the average of his or her residual income for each of the financial years in which that academic year falls.

(5) Where the eligible student's parent satisfies the Welsh Ministers that his or her income is wholly or mainly derived from the profits of a business or profession carried on by him or her, then any reference in this paragraph to a preceding financial year means the earliest period of twelve months which ends after the start of the preceding financial year and in respect of which accounts are kept relating to that business or profession.

(6) Where an eligible student's parent is in receipt of any income which does not form part of his or her income for the purposes of the Income Tax Acts or the income tax legislation of another Member State by reason only that -

(a) am nad yw'n preswylio, am nad yw'n preswylio fel arfer neu am nad yw wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig, neu, os yw ei incwm yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, am nad yw'n preswylio, am nad yw'n preswylio fel arfer neu am nad yw wedi ymgartrefu felly yn yr Aelod-wladwriaeth honno;

(b) am nad yw'r incwm yn codi yn y Deyrnas Unedig, neu, os yw incwm y rhiant yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, am nad yw'n codi yn yr Aelod-wladwriaeth honno; neu

(c) am fod yr incwm yn codi o swydd, gwasanaeth neu o gyflogaeth y mae'r incwm ohoni neu ohono yn esempt rhag treth yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth,

mae ei incwm trethadwy at ddibenion y Rheoliadau hyn yn cael ei gyfrifiannu fel pe bai'r incwm o dan y paragraff hwn yn rhan o'i incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, yn ôl y digwydd.

(7) Os yw incwm rhiant y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu fel petai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, mae'n cael ei gyfrifiannu o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn arian cyfred yr Aelod-wladwriaeth honno, ac incwm rhiant y myfyriwr cymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn yw gwerth sterling yr incwm hwnnw wedi'i ganfod yn unol â'r gyfradd ar gyfer y mis y mae diwrnod olaf y flwyddyn ariannol o dan sylw yn digwydd ynddo, fel y'i cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

(8) Os yw un o rieni'r myfyriwr cymwys yn marw naill ai cyn neu yn ystod y flwyddyn berthnasol a bod incwm y rhiant hwnnw wedi'i gymryd i ystyriaeth neu y byddai'n cael ei gymryd i ystyriaeth er mwyn canfod incwm yr aelwyd, mae incwm yr aelwyd-

(a) os yw'r rhiant yn marw cyn y flwyddyn berthnasol, yn cael ei ganfod drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi; neu

(b) os yw'r rhiant yn marw yn ystod y flwyddyn berthnasol, yn agregiad y canlynol-

(i) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir drwy gyfeirio at incwm y ddau riant, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan oedd y ddau riant yn fyw; a

(ii) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir drwy gyfeirio at incwm y rhiant sydd wedi goroesi, sef y gyfran mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol sy'n weddill ar ôl i'r rhiant arall farw.

(a) he or she is not resident, ordinarily resident or domiciled in the United Kingdom, or where his or her income is computed as for the purposes of the income tax legislation of another Member State, not so resident, ordinarily resident or domiciled in that Member State;

(b) the income does not arise in the United Kingdom, or where the parent's income is computed as for the purposes of the income tax legislation of another Member State, does not arise in that Member State; or

(c) the income arises from an office, service or employment, income from which is exempt from tax in pursuance of any legislation,

his or her taxable income for the purposes of these Regulations is computed as though the income under this paragraph were part of his or her income for the purposes of the Income Tax Acts or the income tax legislation of another Member State, as the case may be.

(7) Where the income of the eligible student's parent is computed as for the purposes of the income tax legislation of another Member State, it is computed under the provisions of these Regulations in the currency of that Member State and the income of the eligible student's parent for the purposes of these Regulations is the sterling value of that income determined in accordance with the rate for the month in which the last day of the financial year in question falls, as published by the Office for National Statistics.

(8) Where one of the eligible student's parents dies either before or during the relevant year and that parent's income has been or would be taken into account for the purpose of determining the household income, the household income is -

(a) where the parent dies before the relevant year, determined by reference to the income of the surviving parent; or

(b) where the parent dies during the relevant year, the aggregate of-

(i) the appropriate proportion of the household income determined by reference to the income of both parents, being the proportion in respect of that part of the relevant year during which both parents were alive; and

(ii) the appropriate proportion of the household income determined by reference to the income of the surviving parent, being the proportion in respect of that part of the relevant year remaining after the death of the other parent.

(9) Os yw Gweinidogion Cymru yn canfod nad yw'r rhieni yn byw fel arfer gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd yn cael ei ganfod drwy gyfeirio at incwm p'un bynnag o'r rhieni y mae Gweinidogion Cymru yn credu yw'r rhiant mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

(10) Os yw Gweinidogion Cymru yn canfod nad yw'r rhieni fel arfer yn byw gyda'i gilydd am ran yn unig o'r flwyddyn berthnasol, mae incwm yr aelwyd yn cael ei ganfod drwy gyfeirio at agregiad y canlynol-

(a) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir yn unol ag is-baragraff (9), sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan honno o'r flwyddyn berthnasol pan nad yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd fel hyn; a

(b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a ganfyddir fel arall mewn perthynas â gweddill y flwyddyn berthnasol.

Cyfrifo incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys

11.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3) a (4) o'r rheoliad hwn a chan eithrio paragraffau (8), (9) a (10) o reoliad 10, mae incwm partner myfyriwr cymwys yn cael ei ganfod yn unol â rheoliad 10, gan ddehongli cyfeiriadau at y rhiant fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner y myfyriwr cymwys.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn canfod nad yw'r myfyriwr cymwys a'i bartner fel arfer yn byw gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn berthnasol, nid yw incwm y partner yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ganfod incwm yr aelwyd.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn canfod nad yw'r myfyriwr cymwys a'i bartner yn byw fel arfer gyda'i gilydd am ran yn unig o'r flwyddyn berthnasol, mae incwm y partner yn cael ei ganfod drwy gyfeirio at ei incwm o dan baragraff (1) wedi'i rannu â hanner cant a dau ac wedi'i luosi â'r nifer o wythnosau cyflawn yn y flwyddyn berthnasol y mae Gweinidogion Cymru yn canfod bod y myfyriwr cymwys a'i bartner yn byw gyda'i gilydd fel arfer.

(4) Os oes gan fyfyriwr cymwys fwy nag un partner mewn unrhyw un flwyddyn academaidd, mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â phob un ohonynt.

Cyfrifo incwm gweddilliol partner rhiant

12. Mae incwm partner rhiant myfyriwr cymwys y mae ei incwm yn rhan o incwm yr aelwyd yn rhinwedd rheoliad 8(2)(a) yn cael ei ganfod yn unol â rheoliad 11, gan ddehongli cyfeiriadau at bartner y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner rhiant y myfyriwr cymwys, a chan ddehongli cyfeiriadau at y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at riant y myfyriwr cymwys.

(9) Where the Welsh Ministers determine that the parents do not ordinarily live together throughout the relevant year, the household income is determined by reference to the income of whichever parent the Welsh Ministers consider the more appropriate under the circumstances.

(10) Where the Welsh Ministers determine that the parents do not ordinarily live together for part only of the relevant year, the household income is determined by reference to the aggregate of -

(a) the appropriate proportion of the household income determined in accordance with paragraph (9), being the proportion in respect of that part of the relevant year for which the parents do not so live together; and

(b) the appropriate proportion of the household income determined otherwise in respect of the remainder of the relevant year.

Calculation of eligible student's partner's residual income

11.-(1) Subject to paragraphs (2), (3) and (4) of this regulation and with the exception of paragraphs (8), (9) and (10) of regulation 10, an eligible student's partner's income is determined in accordance with regulation 10, references to the parent being construed as references to the eligible student's partner.

(2) Where the Welsh Ministers determine that the eligible student and his or her partner do not ordinarily live together throughout the relevant year, the partner's income is not taken into account in determining the household income.

(3) Where the Welsh Ministers determine that the eligible student and his or her partner do not ordinarily live together for part only of the relevant year, the partner's income is determined by reference to his or her income under paragraph (1) divided by fifty-two and multiplied by the number of complete weeks in the relevant year for which the Welsh Ministers determine that the eligible student and his or her partner ordinarily live together.

(4) Where an eligible student has more than one partner in any one academic year, the provisions of this paragraph apply in relation to each.

Calculation of parent's partner's residual income

12. The income of an eligible student's parent's partner whose income is part of the household income by virtue of regulation 8(2)(a) is determined in accordance with regulation 11, references to the eligible student's partner being construed as references to the eligible student's parent's partner and references to the eligible student being construed as references to the eligible student's parent.

Myfyriwr cymwys annibynnol

13.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae myfyriwr cymwys annibynnol yn fyfyriwr cymwys ym mhob achos-

(a) lle y mae'n 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol;

(b) lle y mae wedi bod yn briod neu y mae mewn partneriaeth sifil cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol, p'un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn dal mewn bodolaeth ai peidio;

(c) lle nad oes ganddo riant yn fyw;

(ch) lle mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni na ellir dod o hyd i'r naill neu'r llall o'i rieni neu nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r naill na'r llall ohonynt;

(d) lle nad yw wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall o'i rieni am y cyfnod o flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn berthnasol neu lle y gall, ym marn Gweinidogion Cymru, ddangos ar seiliau eraill ei fod wedi ymddieithrio oddi wrth ei rieni ac nad oes modd cymodi;

(dd) lle y mae wedi bod o dan warchodaeth awdurdod lleol o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989(**1**) drwy gydol unrhyw gyfnod o dri mis sy'n diweddu ar neu ar ôl y dyddiad y daeth yn 16 oed a chyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs ("y cyfnod perthnasol") ar yr amod nad yw wedi bod mewn gwirionedd o dan ofal neu reolaeth ei rieni ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol;

(e) lle y mae ei rieni'n preswylio y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd a bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni naill ai-

(i) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at eu hincwm gweddilliol yn gosod y rhieni hynny mewn perygl; neu

(ii) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni hynny anfon unrhyw arian perthnasol i'r Deyrnas Unedig o ganlyniad i gyfrifo unrhyw gyfraniad o dan reoliad 8;

(f) lle y mae rheoliad 10(9) yn gymwys a lle y mae'r rhiant mwyaf priodol at ddibenion y paragraff hwnnw ym marn Gweinidogion Cymru wedi marw (ni waeth a oedd gan y rhiant o dan sylw bartner ai peidio);

(ff) lle y mae'n aelod o urdd grefyddol sy'n preswylio yn un o dai'r urdd honno;

(g) lle y mae-

(i) yn gofalu am berson o dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol; neu

Independent eligible student

13.-(1) For the purpose of these Regulations an independent eligible student is an eligible student in every case where -

(a) he or she is aged 25 or over on the first day of the relevant year;

(b) he or she has been married or is in a civil partnership before the beginning of the relevant year, whether or not the marriage or civil partnership is still subsisting;

(c) he or she has no parent living;

(d) the Welsh Ministers are satisfied that neither of his or her parents can be found or that it is not reasonably practicable to get in touch with either of them;

(e) he or she has communicated with neither of his or her parents for the period of one year before the beginning of the relevant year or, in the opinion of the Welsh Ministers, he or she can demonstrate on other grounds that he or she is irreconcilably estranged from his or her parents;

(f) he or she was looked after by a local authority within the meaning of section 22 of the Children Act 1989(**1**) throughout any three-month period ending on or after the date on which he or she attained the age of 16 and before the first day of the first academic year of the course ("the relevant period") provided that he or she has not in fact at any time during the relevant period been under the charge or control of his or her parents;

(g) his or her parents are residing outside the European Community and the Welsh Ministers are satisfied that either-

(i) the assessment of the household income by reference to their residual income would place those parents in jeopardy; or

(ii) it would not be reasonably practicable for those parents as a result of the calculation of any contribution under regulation 8 to send any relevant funds to the United Kingdom;

(h) regulation 10(9) applies and the parent whom the Welsh Ministers considered the more appropriate for the purposes of that paragraph has died (irrespective of whether the parent in question had a partner);

(i) he or she is a member of a religious order who resides in a house of that order;

(j) he or she-

(i) has care of a person under 18 years of age on the first day of the relevant year; or

(**1**) 1989 p.41.

(**1**) 1989 c.41.

(ii) wedi gofalu am berson o dan 18 oed ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs presennol cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol;

(ng) lle y mae wedi'i gynnal ei hun o'i enillion am unrhyw gyfnod neu gyfnodau sy'n diweddu cyn blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod agregiad y cyfnodau hynny gyda'i gilydd heb fod yn llai na thair blynedd, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn mae'n cael ei drin fel pe bai'n ei gynnal ei hun o'i enillion yn ystod unrhyw gyfnod-

(i) pan oedd yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r di-waith o dan unrhyw gynllun a oedd yn cael ei weithredu, ei noddi neu ei ariannu gan unrhyw un o awdurdodau neu asiantaethau'r wladwriaeth, boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol ("awdurdod perthnasol");

(ii) pan oedd yn cael budd-dal sy'n daladwy gan unrhyw awdurdod perthnasol mewn cysylltiad â pherson sydd ar gael i'w gyflogi ond sy'n ddi-waith;

(iii) pan oedd ar gael i'w gyflogi a'i fod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad ynglyn â chofrestru a osodwyd gan awdurdod perthnasol fel un o amodau hawlogaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant neu ar gyfer cael budd-dal;

(iv) pan oedd ganddo Efrydiaeth y Wladwriaeth neu ddyfarniad tebyg;

(v) pan oedd yn cael unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a oedd yn cael ei dalu gan unrhyw berson oherwydd anabledd sydd ganddo, neu oherwydd gwelyfod, anaf neu salwch.

(ii) has had care of a person under 18 years of age at any time during the present course prior to the first day of the relevant year;

(k) he or she has supported himself or herself out of his or her earnings for any period or periods ending before the first academic year of the course which periods together aggregate not less than three years, and for the purposes of this paragraph he or she is treated as supporting himself or herself out of his or her earnings during any period in which -

(i) he or she was participating in arrangements for training for the unemployed under any scheme operated by, sponsored or funded by any state authority or agency, whether national, regional or local ("a relevant authority");

(ii) he or she was in receipt of benefit payable by any relevant authority in respect of a person who is available for employment but who is unemployed;

(iii) he or she was available for employment and had complied with any requirement of registration imposed by a relevant authority as a condition of entitlement for participation in arrangements for training or receipt of benefit;

(iv) he or she held a State Studentship or comparable award;

(v) he or she received any pension, allowance or other benefit paid by any person by reason of a disability to which he or she is subject, or by reason of confinement, injury or sickness.

Mynychu

14.-(1) Caiff Gweinidogion Cymru ailgyfrifo hawlogaeth ceisydd i gael Grant Dysgu'r Cynulliad yn unol â pharagraff (2) os bydd mynychiad y ceisydd ar y cwrs dynodedig y gwnaeth gais am Grant Dysgu'r Cynulliad ar ei gyfer yn anfoddhaol.

(2) Dyma'r fformiwla ar gyfer ailgyfrifo -

Mynychiad Gwir **x** **GDC**

Mynychiad Posibl

= Hawlogaeth a Ailgyfrifwyd

Attendance

14.-(1) The Welsh Ministers may recalculate an applicant's entitlement to Assembly Learning Grant in accordance with paragraph (2) if the applicant's attendance on the designated course in respect of which he or she has made an application for Assembly Learning Grant is unsatisfactory.

(2) The formula for re-calculation is -

Actual Attendance **x** **ALG**

Possible Attendance

= Recalculated Entitlement

(3) Yn y paragraff hwn -

ystyr "GDC" ("*ALG*") yw'r hawlogaeth i gael Grant Dysgu'r Cynulliad a gyfrifir yn unol â rheoliad 7;

ystyr "mynychiad gwir" ("*actual attendance*") yw nifer dyddiau mynychiad y ceisydd yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru ohonynt gan y sefydliad sy'n cyflwyno'r cwrs, ac eithrio unrhyw nifer o ddyddiau heb fod yn uwch na 60 pan fu'r ceisydd yn absennol oherwydd salwch;

ystyr "mynychiad posibl" ("*possible attendance*") yw nifer y dyddiau o ddiwrnod cyntaf i ddiwrnod olaf y mynychiad gofynnol ar y cwrs.

(3) In this paragraph -

"actual attendance" ("*mynychiad gwir*") means the number of days attendance by the applicant notified to the Welsh Ministers by the institution delivering the course, excluding any number of days not exceeding 60 on which the applicant was absent due to illness;

"ALG" ("*GDC*") means the entitlement to Assembly Learning Grant calculated in accordance with regulation 7;

"possible attendance" ("*mynychiad posibl*") means the number of days from the first to last day of required attendance on the course.

Talu Grant Dysgu'r Cynulliad

15.-(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r grant y mae myfyriwr cymwys yn gymhwysol i'w gael o dan y Rheoliadau hyn a hynny mewn unrhyw randaliadau (os oes rhandaliadau) ac ar unrhyw adegau y maent o'r farn eu bod yn briodol ac wrth arfer eu swyddogaethau o dan y rheoliad hwn cânt wneud taliadau dros dro hyd nes y ceir cyfrifiad terfynol o swm y grant y mae'r myfyriwr yn gymhwysol i'w gael.

(2) Caniateir i daliadau gael eu gwneud yn y cyfryw fodd ag sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru a chânt ei gwneud yn un o amodau hawlogaeth i gael taliad bod yn rhaid i'r myfyriwr cymwys roi iddynt fanylion cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig y gall taliadau gael eu talu iddo drwy eu trosglwyddo'n electronig.

Payment of Assembly Learning Grant

15.-(1) The Welsh Ministers must pay the grant for which an eligible student qualifies under these Regulations and in such instalments (if any) and at such times as they consider appropriate and in the exercise of their functions under this regulation they may make provisional payments pending the final calculation of the amount of grant for which the student qualifies.

(2) Payments may be made in such manner as the Welsh Ministers consider appropriate and they may make it a condition of entitlement to payment that the eligible student must provide them with particulars of a bank or building society account in the United Kingdom into which payments may be made by electronic transfer.

Gordaliadau

16. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud hynny'n ofynnol, rhaid i fyfyriwr cymwys ad-dalu unrhyw swm a dalwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn sydd am ba reswm bynnag yn fwy na swm Grant Dysgu'r Cynulliad y mae ganddo hawl iddo o dan y Rheoliadau hyn.

Overpayments

16. An eligible student must, if so required by the Welsh Ministers, repay any amount paid to the student under these Regulations which for whatever reason exceeds the amount of Assembly Learning Grant to which he or she is entitled under these Regulations.

Jane E Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers.

4 Awst 2007

4 August 2007

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 2314 (Cy.185)

2007 No. 2314 (W.185)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2007

The Assembly Learning Grant (Further Education) Regulations 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W118/09/07 ON